# CYNNWYS


RHEOLI FERSIYNAU ........ 1

1 CYFLWYNIAD ........ 1

1.1 Beth yw Llwybr Newydd? ........ 1

1.2 Beth yw'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig? ........ 1

1.3 Prosesau'r ACI a SDC hyd yn hyn ........ 1

1.4 Diben y Datganiad Ôl-gyhoeddi hwn ........ 2

2 SUT Y MAE YSTYRIAETHAU AMGYLCHEDDOL A CHYNALIADWYEDD WEDI'U HINTEGREIDDIO I SDC ........ 3

2.2 Casglu Tystiolaeth, Cwmpasu'r ACI ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ........ 3

3 SUT Y CYMERWYD CANFYDDIADAU'R ACI I YSTYRIAETH, A'R RHESYMAU AM DDEWIS Y SDC DERFYNOL ........ 10

3.1 Opsiynau Amgen Rhesymol i SDC ........ 10

3.2 Fersiynau o SDC a'r ACI ........ 10

3.3 Asesiad o SDC Ddrafft ar gyfer Ymgynghori Hydref 2020 ........ 13

3.4 Asesiad o SDC Mawrth 2021 ........ 14

3.5 Cymhariaeth rhwng canfyddiadau'r asesiad i fersiwn ymgynghori SDC Hydref 2020 a SDC Mawrth 2021 ........ 15

3.6 Osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau negyddol a sicrhau'r effeithiau cadarnhaol mwyaf posibl 17

3.7 SDC Derfynol (Fersiwn Gyhoeddi) (Mawrth 2021) ........ 20

3.8 Sut y cymerwyd safbwyntiau cyrff ymgynghori i ystyriaeth ........ 20

3.9 Ystyriaeth o Ymatebion ........ 21

4 MESURAU I FONITRO EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL ARWYDDOCAOL ........ 22

5 CASGLIAD ........ 25

- Uchelgais: O ddaioni i'r economi a lleoedd yng Nghymru;
- Uchelgais: O ddaioni i ddiwylliant ac iaith Cymru
- Blaenoriaeth 1: Cynllunio ar gyfer gwell cysylltedd;
- Blaenoriaeth 2: Gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus y gall pobl eu defnyddio, y maent eisiau eu defnyddio ac y maent yn eu defnyddio;
- Blaenoriaeth 3: Seilwaith trafnidiaeth diogel, hygyrch, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda;
- Blaenoriaeth 4: Newid ymddygiad;
- Blaenoriaeth 5: Mabwysiadu dulliau arloesi sy'n cynnig dewisiadau trafnidiaeth mwy cynaliadwy
- Cynllun Cryno ar gyfer Teithio Llesol;
- Cynllun Cryno ar gyfer Bysiau;
- Cynllun Cryno ar gyfer Rheilffyrdd;
- Cynllun Cryno ar gyfer Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio;
- Cynllun Cryno ar gyfer Sectorau Trafnidiaeth Cymunedol a Di-elw;
- Cynllun Cryno ar gyfer Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat;
- Cynllun Cryno ar gyfer Cludo Nwyddau a Logisteg;
- Cynllun Cryno ar gyfer Porthladdoedd a Thrafnidiaeth Forol; a
- Cynllun Cryno ar gyfer Hedfanaeth.

**Cyflwynwyd yn Adroddiad Terfynol yr ACI**

SDC Ddrafft ar gyfer Ymgynghori Hydref 2020 (Atodiad D)

- Gweledigaeth;
- Uchelgais: O ddaioni i bobl a chymunedau;
- Uchelgais: O ddaioni i'r amgylchedd;
- Uchelgais: O ddaioni i'r economi a lleoedd yng Nghymru;
- Uchelgais: O ddaioni i ddiwylliant ac iaith Cymru;
- Blaenoriaeth 1: Cynllunio ar gyfer gwell cysylltedd;
- Blaenoriaeth 2: Gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus;
- Blaenoriaeth 3: Seilwaith trafnidiaeth diogel, hygyrch, wedi'i gynnal a'i gadw a'i reoli yn dda;
- Blaenoriaeth 4: Gwneud trafnidiaeth gynaliadwy yn fwy deniadol a fforddiadwy;
- Blaenoriaeth 5: Cefnogi dulliau arloesi sy'n cynnig dewisiadau trafnidiaeth mwy cynaliadwy;
- Cynllun Cryno ar gyfer Teithio Llesol;
- Cynllun Cryno ar gyfer Bysiau;
- Cynllun Cryno ar gyfer Rheilffyrdd;
- Cynllun Cryno ar gyfer Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio;
- Cynllun Cryno ar gyfer y Trydydd Sector;
- Cynllun Cryno ar gyfer Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat;
- Cynllun Cryno ar gyfer Cludo Nwyddau a Logisteg;
- Cynllun Cryno ar gyfer Porthladdoedd a Thrafnidiaeth Forol; a
- Cynllun Cryno ar gyfer Hedfanaeth.

SDC Mawrth 2021 (Atodiad E)

- Gweledigaeth;
- Blaenoriaeth 1: Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio;
- Blaenoriaeth 2: Galluogi pobl a nwyddau i symud yn hawdd o ddrws i ddrws gan ddefnyddio gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth sy'n hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon;
- Blaenoriaeth 3: Annog pobl i newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy;
- Uchelgais: O ddaioni i bobl a chymunedau;
- Uchelgais: O ddaioni i'r amgylchedd;
- Uchelgais: O ddaioni i'r economi a lleoedd yng Nghymru;
- Uchelgais: O ddaioni i ddiwylliant a'r Gymraeg;
- Cynllun Cryno: Teithio Llesol;
- Cynllun Cryno: Bysiau;
- Cynllun Cryno: Rheilffyrdd;
- Cynllun Cryno: Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio;
- Cynllun Cryno: Y Trydydd Sector;
- Cynllun Cryno: Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat;
- Cynllun Cryno: Cludo Nwyddau a Logisteg;
- Cynllun Cryno: Porthladdoedd a Thrafnidiaeth Forol; a
- Cynllun Cryno: Hedfanaeth.

**Cyflwynwyd yn y Datganiad Ôl-gyhoeddi hwn:**

Trosolwg o sut mae proses yr ACI wedi dylanwadu ar ddatblygiad SDC.

Ystyriaeth o ddiwygiadau rhwng SDC Mawrth 2021 (fersiwn a aseswyd) a SDC 2021 (fersiwn gyhoeddi derfynol).

## 3.3 Asesiad o SDC Ddrafft ar gyfer Ymgynghori Hydref 2020

3.3.1 Mae Atodiad D Adroddiad Terfynol yr ACI (Mawrth 2021) yn cyflwyno'r asesiad o'r SDC ddrafft ar gyfer ymgynghori.

3.3.2 Eto, aseswyd y Weledigaeth a'r Uchelgeisiau ar gyfer eu cydweddoldeb yn erbyn Amcanion yr ACI. Diwygiwyd y Weledigaeth a nodwyd ei bod yn cydweddu â holl Amcanion yr ACI. Nodwyd bod cydweddoldeb y pedwar uchelgais yn erbyn Amcanion yr ACI yr un fath â SDC Hydref 2020.

3.3.3 Aseswyd y Blaenoriaethau Pum Mlynedd a phob un o'r Cynlluniau Cryno yn fwy manwl yn erbyn pob un o Amcanion yr ACI.

3.3.4 Roedd yr asesiadau o flaenoriaethau'r drafft ymgynghori yr un fath â'r asesiad o SDC Hydref 2020 i raddau helaeth. Yn yr asesiad o'r SDC ddrafft ar gyfer ymgynghori, nodwyd effeithiau cadarnhaol cryf ar gyfer Blaenoriaethau 3 a 4 yn erbyn Amcan 2 yr ACI (cydlyniant a chydraddoldeb) a oedd yn gadarnhaol mân yn flaenorol. Mae hyn gan fod y blaenoriaethau yn cynnig rhagor o fanylion ar sut i sicrhau bod trafnidiaeth yng Nghymru yn hygyrch i amrywiaeth ehangach o unigolion, yn fforddiadwy ac yn ceisio gwella tybiaethau o drafnidiaeth, gan gynnwys diogelwch a dibynadwyedd.

3.3.5 Roedd newidiadau eraill yn cynnwys sgôr cadarnhaol mân (yn hytrach na niwtral) i Flaenoriaeth 4 yn erbyn Amcan 5 yr ACI (y Gymraeg) oherwydd i'r flaenoriaeth gael ei diwygio i gynnwys y datganiad *"darparu gwell gwybodaeth i ddefnyddwyr"*, a ddylai gynnwys gwybodaeth am y Gymraeg.

# 5 Casgliad

5.1.1 Mae’r Adroddiad hwn yn bodloni gofynion Datganiad Ôl-gyhoeddi yn unol â’r Rheoliadau AAS. Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yw rhoi Cymru yn uniongyrchol ar lwybr cynaliadwy i wella llesiant. Mae’r nodau llesiant wedi bod yn rhan annatod o’r ACI gan gynnwys paratoad yr Adroddiad Cwmpasu a Fframwaith yr ACI. Defnyddiwyd y nodau llesiant hefyd i hysbysu’r adolygiad o’r dystiolaeth, i nodi problemau ac i strwythuro’r Fframwaith asesu. Arfarnwyd pob fersiwn o SDC ar gyfer ei heffeithiau sylweddol tebygol ar bob un o Amcanion yr ACI yn y Fframwaith. Mae’r ACI yn broses sydd wedi’i hintegreiddio yn fawr â datblygiad SDC, gan gynnwys perthynas waith agos rhwng tîm yr ACI a Llywodraeth Cymru. Mae’r ACI wedi cynnig ffordd strwythuredig o ystyried effeithiau amrywiaeth eang o opsiynau.

5.1.2 Defnyddir yr ACI fel offeryn ymgynghori, sy’n rhoi dadansoddiad i’r cyhoedd a chyrff statudol o sut y datblygwyd SDC mewn modd a fydd yn sicrhau y gall gyfrannu at ddatblygu mwy cynaliadwy. Mae’r broses ymgynghori, cyfranogi ac ymgysylltu wedi rhoi’r cyfle i randdeiliaid gynnig adborth ac awgrymiadau i geisio gwella cynaliadwyedd cyffredinol SDC.

5.1.3 Drwy’r broses gyfan, mae’r ACI wedi darparu argymhellion a allai helpu i osgoi neu liniaru effeithiau negyddol posibl neu wella effeithiau cadarnhaol. Mae argymhellion a wnaed i Lywodraeth Cymru wedi bod yn nodwedd allweddol o’r broses ACI o’r cychwyn. Cyflwynir yr argymhellion allweddol a wnaed a’r ymateb i’r rhain yn adroddiadau blaenorol yr ACI ac ym Mhennod 3 y Datganiad hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn barod iawn i dderbyn mesurau i wella perfformiad cynaliadwyedd SDC ac wedi gwneud gwelliannau a diwygiadau yn sgil y rhain drwy gydol y broses.

